

RHAGARWEINIAD

Mân rywogaeth o dda byw yw gwenyn (*Apis Mellifera*) ond maent o bwys mawr. Yn eu hanfod, mae gwenyn yn beillwyr hanfodol ar gyfer ffrwythau a llysiau. Mae cadw gwenyn yn hobi diddorol iawn, y gellir ei wneud yn fusnes bach proffidiol. Daw'r prif gnydau o fêl yng Nghymru o sycamorwydd ym Mai; palalwyf, meillion a mwyar duon yng Ngorffennaf, ac o rug yn Awst.

Y FARCHNAD

Mae 80 - 90% o'r mêl a werthir yn y DU wedi'i fewnforio. Mae mêl o ansawdd da o Gymru bob amser yn brin, ac yn gwerthu'n dda mewn marchnadoedd ffermyr a sioeau lleol, ac wrth gât y fferm.

Mae cynhyrchion ychwanegol yn cynnwys cyffeithiau a phicls sy'n defnyddio mêl, a chanhwyllau, sglein a cholur o gŵyr gwenyn.

BIOLEG

Tri math o wenyn a geir mewn cytref weithredol o wenyn: brenhines, gwenyn gweithgar ac, ar rai adegau, dronau. Mae strwythur cymdeithasol gwenyn mêl yn golygu eu bod yn cydweithredu i gynnal y gytref ac i greu storffeydd o fêl a phaill er mwyn ei chynnal yn ystod misoedd y gaeaf. Y gallu hwn sy'n gwahaniaethu rhwng y wenynen fêl a rhywogaethau eraill o wenyn, ac sy'n ei gwneud yn diddorol i wenywyr.

HEIDIO

Trwy heidio y mae gwenyn yn cynyddu eu niferoedd. Ym Mai neu Fehefin, bydd y gwenyn yn bwydo larfa un neu fwy o'r gwenyn gweithio â jeli'r frenhines i greu brenhines ifanc. Yna, bydd yr hen frenhines yn gadael y cwch gyda thua hanner y boblogaeth o wenyn, i greu cartref newydd mewn cwch gwag, coeden gau, neu yn nho adeilad.

Bydd y frenhines ifanc yn y cwch gwreiddiol yn paru yn yr awyr â sawl drôn hedegog, ac wedyn yn dychwelyd i'w chwch a dechrau dodwy. Mae un gytref wedi dod yn ddwy. Weithiau, lle bo mwy nag un frenhines newydd wedi deor, mae'r gytref yn parhau i ymrannu'n heidiau llai, gan greu tair, pedair neu hyd yn oed fwy o gytrefi.

CAEL HYD I WENYN

Ceisiwch ddefnyddio gwenyn o'ch ardal leol. Byddant wedi arfer â mympwyon y tywydd yn eich ardal. Gall breninesau sydd wedi'u fewnforio gario clefydau egsotig, ac efallai na fyddant yn gallu gwrthsefyll clefydau a geir eisoes yn y DU.

CYCHOD GWENYN

Mae tua 90% o wenywyr Prydain yn defnyddio cychod gwenyn *British Standard National*, sydd â llawr pren, blwch deor yn dal 11 crwybr dwfn mewn fframiau pren (Ffig 1), lle mae'r frenhines yn dodwy ei hwyau ac yn magu'r nythaid; deholwr breninesau er mwyn cyfyngu'r frenhines i'r blwch deor; un neu fwy o adrannau uwch, blychau bas ac ynddynt 10 neu 11 o grwybrau lle mae'r gwenyn gweithgar yn storio mêl, bwrdd gorchuddio a tho. Mae'n bosibl cael cychod ail-law, ond maent yn aml mewn cyflwr gwael. Rhaid glanhau hen gychod trwy eu deifio â chwythlamp cyn cadw'r gwenyn, er mwyn atal clefydau rhag ymledu.



Ffig 1: Ffrâm gyda chrwybr

LLEOLI'R GWENYN

Bydd unrhyw leoliad is na rhyw 200m uwchben lefel y môr, gyda gwrychoedd, tir pori garw, ac amrywiaeth o goed yn cynnal gwenynfa â 6 - 8 o gychod. Dylai safle'r cwch fod yn gysgodol, yn heulog, ac o fewn cyrraedd mewn cerbyd ar unrhyw adeg o'r flwyddyn, ac ymhell oddi wrth bobl yn mynd heibio.

CALENDR RHEOLI

Ebrill	Archwiliad y gwanwyn. Ar ddiwrnod cynnes, heb wynt, gwiriwch fod nythaid y gwenyn gweithgar, y wyau a'r larfae ifainc yn iach. Efallai y gallech symud y cychod at y rép had olew am 6 wythnos.
Mai / Meh	Ychwanegwch adrannau uwch er mwyn storio mêl, gwiriwch am heidio. Bwydwch y gwenyn os bydd y tywydd yn oer.
Gorffennaf	Ychwanegwch fwy o adrannau uwch ar gyfer mêl.
Awst	Tynnwch yr adrannau uwch a chliriwch y mêl ohonynt. Efallai y gallech symud y cychod at grug am 6 wythnos.
Medi	Tynnwch y cnwd o fêl. Triniwch y gwenyn am <i>varroa</i> . Bwydwch y gwenyn â surop siwgr ar gyfer y gaeaf.
Hydref	Gosodwch sgrîn wrth-lygod wrth fynedfa'r cwch i atal llygod rhag mynd i mewn iddo yn ystod y gaeaf.
Tachwedd	Gwiriwch fod y cychod yn ddiogel. Gwiriwch bwysau storffeydd y gaeaf trwy godi (swmpo) y cwch. Gellwch adael
- Mawrth	y gwenyn yn llonydd yn ystod y gaeaf.

COSTAU

Nid yw costau cychwynnol yn uchel wrth ochr llawer o fentrau ffermio. Mae Tabl 1 yn rhoi syniad ynglŷn â chostau cychwynnol ac mae Tabl 2 yn rhoi syniad ynglŷn â chostau cynnal blynyddol, ond heb ystyried costau llafur. Oherwydd arbedion maint, po fwyaf o gychod sydd gan wenywnwr, isaf fydd cost y cwch unigol. Argymhellir eu bod yn ymaelodi â chymdeithas leol o wenywnwr; mae'r tanysgrifiad blynyddol tuag £20.

Tabl 1. Amcangyfrif o gostau sefydlu cwch

Eitem	Amc. cost
Cwch ail-law gyda gwenyn	£100
Dillad gwarchod (siwt wenyn lawn gyda menig)	£120
Echdynnwr mêl o ddrur di-staen, hidlen a mygydd	£150
Llyfrau	£30
Cyfanswm	£400

Tabl 2. Amcangyfrif o gostau cynnal blynyddol

Eitem	Amc. cost.
Triniaeth wrth- <i>varroa</i> (y cwch)	£3
Siwgr ar gyfer porthiant y gaeaf (y cwch)	£8
Fframiau newydd a sylfaen cŵyr gwenyn (y cwch)	£8
Jariau a labeli (20c yr un, ar gyfer 50 o jariau)	£10
Cyfanswm	£29

INCWM

Mae ar gwch gwenyn angen rhyw 68kg o fêl y flwyddyn i oroesi, ynghyd â 23kg o baill i fwydo'r gwenyn ifainc. I raddau helaeth, mae cadw gwenyn ar drugaredd y tywydd. Byddai gwenynwr yn disgwyl casglu 14-18kg, ar gyfartaledd, o fêl dros ben ym mhob cwch. Gallai hyn godi i 23kg mewn blwyddyn dda, a gostwng i ddim byd mewn blwyddyn wael. Mae mêl yn gwerthu'n rhwydd am 3.50 am jar 454g, sy'n golygu incwm gros cyfartalog o ryw £125 y cwch. Mae cynhyrchion eraill o gwch gwenyn yn gwerthu'n dda, yn enwedig canhwylau a sglein o gŵyr gwenyn. I'r arbenigwr, gall magu breninesau fod yn weithgaredd gwerth chweil, gan greu incwm da a ffynhonnell ar gyfer breninesau ifainc egniol i ail-gyflenwi breninesau mewn cychod sy'n tanberfformio.



Ffig 2: Cynhyrchion gyda gwenyn

IECHYD

Erbyn hyn, mae gwiddon *varroa* yn effeithio ar holl wenyn mêl y DU. Mae'r gwiddon yn mynd yn bla ar y cwch ac yn gwanhau'r nythaid anaeddfed, fel bod y cwch yn agored i gael niwed gan firysau. Mae modd cadw *varroa* ar lefel y gellir ei thrin trwy osod sribedi meddyginiaethol Apistan yn y cwch am 6 wythnos bob hydref, a thrwy ddulliau anghemegol eraill. Os na thrinnir y cychod, bydd y gytref yn cwmpo o fewn 12 mis.

Clefydau a all daro nytheidiau Dylai gwenynwr ddysgu adnabod clefyd y gwenyn Americanaidd a chlefyd y gwenyn Ewropeaidd.

Mae'r rhain yn glefydau hysbysadwy, a cheir hwy fel arfer mewn manau poeth. Bydd arolygwyr y Weinyddiaeth yn arolygu eich gwenyn am ddim.

GOFYNION CYFREITHIOL

Nid yw'n ofynnol i wenywnwr ddal trwydded. Mae argymhelliad cryf fod perchnogion ag yswiriant atebolrwydd. Os ydych yn gwerthu mêl, mae angen ichi gydymffurfio â Rheoliadau Diogelwch Bwyd (Hylendid Bwyd yn Gyffredinol), 1995; Rheoliadau Labelu Bwyd, 1996; Deddf Pwysau a Mesurau, 1985; Deddf Diogelwch Bwyd, 1990. Dylech geisio cyngor gan eich Swyddog Safonau Masnach Lleol (yn eich Cyngor Lleol)

DECHRAU CADW GWENYN

Ymunwch â'ch Cymdeithas Wenywnwr leol. Bydd yr aelodau yn rhoi llawer iawn o gymorth ichi a llawer o fuddion, yn cynnwys yswiriant atebolrwydd perchennog.

LLYFRAU I'R DECHREUWR

The Complete Guide to Beekeeping, Jeremy Evans a Sheila Berrett, 192 o dudalennau (Hydref 2005), Cyhoeddwr: Bees & Things, Iaith: Saesneg, ISBN: 0954969200

CYSYLLTIADAU

Cyfarpar cadw gwenyn: Thornes www.thorne.co.uk

Cymdeithas Gwenynwr Cymru www.wbka.com

Gwefan Graham Law ar gyfer gwenynwr newydd www.beeginners.info

Cymdeithas Gwenynwr Prydain www.bbka.org.uk